Cyngor Tref
Rhuddlan
Town Council

# Cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan

Annwyl Cynghorydd 9 Ionawr 2026

Rwyf yn eich galw trwy hyn i fynychu cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan a gynhelir **nos Iau, 15 Ionawr 2026 am 7pm** yn Hwb Rhuddlan, Clos David Owen, Rhuddlan LL18 2UJ.

Ni fydd cyfleusterau hybrid ar gael oherwydd materion gweithredol/staffio ond mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Byddai o gymorth petai aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno dod i'r cyfarfod yn rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael ar eu cyfer.

**Agenda**

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgan buddiant* Gweler tudalen 2**
3. **Materion Brys fel y'u cytunwyd gan y Cadeirydd.**
4. **Materion yr Heddlu –** derbyn adroddiad trosedd gan dîm yr Heddlu.
5. **Cofnodion**:
   a. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2025
   b. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2026
   c. Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd unrhyw Bwyllgor neu Weithgor a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf.
6. **Adroddiad cynnydd ar sail y cofnodion**
7. **Adroddiadau gan:**
   a. Y Maer a'r Dirprwy Faer
   b. Cler y Dref dros dro – gohebiaeth.
8. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** – derbyn adroddiadau.
9. **Cynllunio**
   a. Dim ar adeg llunio'r agenda
10. **Y Gyllideb a Materion Ariannol**
    a. Ceisiadau am grantiau - dim
    b. Ystyried trefniadau ar gyfer cymeradwyo rhestr daliadau mis Ionawr.
11. **Materion Cymunedol**
12. **Dyddiad y cyfarfodydd nesaf**:
    - Cyfarfod llawn Cyngor y Dref – dydd Iau, 12 Chwefror 2026

**Rhan 2. Cau allan y wasg a'r cyhoedd.** Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

13. **Adolygu rhesymau dros ymddiheuriadau.**

*Cynghorydd Mike Kermode – Clerc y Dref dros dro*
*Ffôn 07801768878 – e-bost mikekermode@btinternet.com*

***Datgan buddiant**

**Buddiant personol** – Os oes gennych fuddiant personol yn unrhyw fater yn ymwneud â'ch Cyngor, mae'n rhaid i chi ddatgelu'r buddiant a natur y buddiant cyn cymryd rhan yn unrhyw drafodion cysylltiedig.

**Buddiant rhagfarnus** – Mae'n rhaid i chi ofyn i chi eich hun a fyddai aelod o'r cyhoedd, petai'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn credu bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o niweidio neu ragfarnu eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid ystyried bod y buddiant yn debygol o niweidio neu amharu ar eich gallu i ddod i benderfyniad er budd y cyhoedd. Rhaid datgan hyn cyn y trafodir yr eitem a bydd disgwyl i chi adael yr ystafell a pheidio â chymryd rhan yn yr eitem.

Yn y ddau achos uchod, mae angen i chi lenwi'r ffurflen a roddir i chi gan y Clerc a bydd yn ymddangos ar gofrestr buddiannau aelodau ar wefan Cyngor Tref Rhuddlan.